



Amcangyfrifon tldi tanwydd Cymru 2018 Prif ganlyniadau

21 Mai 2019
SFR 33/2019

Mae'r datganiad hwn yn rhoi amcangyfrif o'r prif benawdau o ran nifer a chanran yr aelwydydd yng Nghymru sydd mewn tldi tanwydd fel y'i diffinnir yn [Strategaeth Tldi Tanwydd 2010](#) Llywodraeth Cymru (gweler y diffiniad isod). Dyma'r amcangyfrifon cyntaf o ran tldi tanwydd ers 2016¹ a oedd wedi'u modelu ar [amcangyfrifon Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2008](#). Mae'r fethodoleg a ddefnyddir i gynhyrchu'r ffigurau hyn yn gymharol debyg i'r un a ddefnyddiwyd i gynhyrchu amcangyfrifon 2008. Mae'r prif ffigurau hyn yn cael eu cyhoeddi cyn dadansoddiad manylach er mwyn bodloni angen/budd y defnyddiwr.

Bydd dadansoddiad manwl sy'n cynnwys tueddiadau dros y blynyddoedd yn cael eu cyhoeddi yn yr haf. Bydd hwnnw'n dod gydag adroddiad methodoleg manwl.

Y Prif Ganlyniadau

Yn 2018:

- Roedd 155,000 o aelwydydd yng Nghymru yn byw mewn tldi tanwydd, sy'n cyfateb i 12% o aelwydydd.
- Roedd 32,000 o aelwydydd yng Nghymru yn byw mewn tldi tanwydd difrifol², sy'n cyfateb i 2% o aelwydydd.
- Roedd 130,000 o aelwydydd sy'n agored i niwed yng Nghymru yn byw mewn tldi tanwydd³, sy'n cyfateb i 11% o aelwydydd sy'n agored i niwed.
- Roedd 19,000 o aelwydydd sy'n agored i niwed yng Nghymru yn byw mewn tldi tanwydd difrifol², sy'n cyfateb i 2% o aelwydydd sy'n agored i niwed.

Yng Nghymru, diffinnir aelwyd fel un sydd mewn tldi tanwydd os ydynt yn gorfod gwario mwy na 10 y cant ar gynnal trefn wresogi ddigonol. Diffinnir aelwyd sy'n gorfod gwario mwy nag 20 y cant fel un sydd mewn tldi tanwydd difrifol.

Ynghylch y datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn defnyddio canlyniadau o [Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18](#), [Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18](#) a data prisiau tanwydd er mwyn creu amcangyfrifon cenedlaethol o nifer a chanran yr aelwydydd a'r aelwydydd sy'n agored i niwed yng Nghymru sy'n byw mewn tldi tanwydd.

Y prif benawdau yw'r rhain, cyhoeddir adroddiad manylach yn yr haf.

Yn y datganiad hwn

Gwybodaeth gefndirol	2
Y gallu i gymharu ag amcangyfrifon blaenorol	2
Methodoleg	3
Tldi Tanwydd yng Nghymru	4
Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd	5

¹ [Cynhyrchu amcangyfrifon o lefelau tldi tanwydd yng Nghymru](#)

² Mae maint y sampl ar gyfer tldi tanwydd difrifol yn fach ac nid ystyrir bod yr amcangyfrifon hyn mor gadarn a'r amcangyfrifon ar gyfer tldi tanwydd.

³ Diffinnir aelwyd sy'n agored i niwed fel rheini sy'n gartref i berson 60 oed a throsodd, blentyn neu berson ifanc o dan 16 oed a/neu berson sy'n anabl neu sydd â chyflwr cyfyngus hirdymor.

Gwybodaeth gefndirol

Ystyrir bod aelwyd mewn tlodi tanwydd os na all yr aelwyd honno gadw'r cartref yn gynnes am gost resymol. Yng Nghymru, mesurir hyn fel unrhyw aelwyd a fyddai'n gorfod gwario mwy na 10 y cant o'i hincwm ar gynnal trefn wresogi ddigonol, fel y'i diffinnir gan Sefydliad Iechyd y Byd. Mae hyn yn gofyn am dymheredd o 21 gradd Celsius o leiaf y tu mewn, mewn ardaloedd yr ydych yn byw ynddynt ac 18 gradd Celsius mewn ardaloedd eraill. Diffinnir aelwyd sy'n gorfod gwario mwy nag 20 y cant fel un sydd mewn tlodi tanwydd difrifol.

Yn 2010, gosododd Llywodraeth Cymru dargedau i gael gwared ar dlodi tanwydd cyn belled â bo hynny'n ymarferol bosibl:

- mewn aelwydydd sy'n agored i niwed erbyn 2010
- mewn tai cymdeithasol erbyn 2012
- ym mhob aelwyd erbyn 2018.

Diffinnir aelwyd sy'n agored i niwed fel rheini sy'n gartref i berson 60 oed a throsodd a/neu blentyn neu berson ifanc o dan 16 oed a/neu berson sy'n anabl neu sydd â chyflwr hirdymor sy'n cyfyngu arnynt.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ymgynghori ar gynllun newydd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn yr hydref 2019, gyda'r bwriad o gyhoeddi fersiwn derfynol o'r cynllun diwygiedig yn 2020.

Y gallu i gymharu ag amcangyfrifon blaenorol

Cynhyrchwyd yr amcangyfrifon cynhwysfawr diwethaf o ran tlodi tanwydd yng Nghymru yn 2008, gan ddefnyddio data [Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2008](#). Roedd yr amcangyfrifon hynny yn defnyddio'r diffiniadau uchod o dlodi tanwydd, aelwydydd sy'n agored i niwed a threfn wresogi ddigonol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r ffigurau yn natganiad 2018 yn cyd-fynd â'r un a ddefnyddiwyd ar gyfer y ffigurau yn 2008, felly gellir cymharu yn gyffredinol. Er hynny, mae'r fethodoleg o ran y Weithdrefn Asesu Safonol wedi newid ar ôl i ystadegau 2008 gael eu creu (gweler Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd).

Yn 2016,⁴ gwnaed ymchwil ychwanegol, a oedd yn defnyddio data sylfaenol 2008, gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am gostau tanwydd, incymau a modelu gosodiadau effeithlonrwydd ynni i ragfynegi ac amcangyfrif lefelau tlodi tanwydd hyd at 2016. Bryd hynny, newidiwyd y drefn wresogi i fod yn 23 gradd canran mewn ardaloedd yr ydych yn byw ynddynt mewn aelwydydd â phobl hŷn, pobl ag anabledd neu afiechydon cronig, ac fe ehangwyd y diffiniad o aelwyd sy'n agored i niwed i gynnwys aelwydydd sy'n gartref i bobl ifanc o dan 25 oed. Felly, nid oes modd cymharu amcangyfrifon tlodi tanwydd 2018 gyda'r lefelau a ragfynegwyd yn yr ymchwil yn 2016.

Ceir rhagor o wybodaeth ar gymharu a newid dros amser yn yr adroddiad manwl yn yr haf.

⁴ [Cynhyrchu amcangyfrifon o lefelau tlodi tanwydd yng Nghymru](#)

Dull gweithredu

Mae'r amcangyfrifon o'r aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd yng Nghymru wedi eu casglu gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu. Mae'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu yn cynhyrchu amcangyfrifon ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac yn helpu i gynhyrchu amcangyfrifon yr Alban.

Defnyddir tair elfen wrth wneud amcangyfrifon tlodi tanwydd. Dyma nhw:

- Incymau blynyddol yr aelwyd
- Prisiau tanwydd yr aelwyd
- Defnydd o ynni angenrheidiol ar yr aelwyd yn flynyddol.

Mae'r sail ar gyfer incymau blynyddol yn dod o [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#). Yn 2017-18, os mai'r ymatebydd yw Person Cyswllt y Cartref⁵, neu ei bartner/priod, gofynnwyd set o gwestiynau am incwm a chostau rhedeg tai⁶. Defnyddir data o arolygiadau [Arolwg Cyflwr Tai Cymru](#) i sefydlu effeithlonwydd ynni yn y cartref ac, felly, faint o ynni sydd ei angen i'w wresogi yn unol â threfn wresogi Sefydliad Iechyd y Byd. Er mwyn amcangyfrif costau tanwydd aelwydydd. Mae'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu yn cymryd y defnydd ynni gofynnol ar gyfer yr aelwyd ac yn cyfuno hyn â'r pris tanwydd hysbys am y dull o dalu⁷ a ddefnyddir gan yr aelwyd a lleoliad yr aelwyd honno yng Nghymru.

Mae aelwyd sydd angen gwario mwy na 10 y cant o'u hincwm ar gynnal trefn wresogi ddigonol yn cael ei diffinio fel aelwyd mewn tlodi tanwydd. Diffinnir aelwyd sy'n gorfod gwario mwy nag 20 y cant fel un sydd mewn tlodi tanwydd difrifol.

Ceir rhagor o wybodaeth lefel uchel ar y fethodoleg a ddefnyddir i gynhyrchu'r amcangyfrifon hyn yn Atodiad 1. Bydd adroddiad methodoleg yn cael ei gyhoeddi ynghyd â dadansoddiad manwl o'r amcangyfrifon tlodi tanwydd yn yr haf.


⁵Person Cyswllt y Cartref yw'r ymatebydd sydd yn berchen neu'n rhentu'r eiddo. Os yw'r eiddo wedi ei berchnogi/rhentu ar y cyd, Person Cyswllt y Cartref yw'r un sydd ar y cyflog mwyaf. Os oes mwy nag un person yn berchen/rhentu ar y cyd a'u bod yn ennill yr un faint y person hynaf yw Person Cyswllt y Cartref.

⁶[Arolwg Cenedlaethol Cymru: holiaduron](#)

⁷e.e. debyd uniongyrchol, mesurydd rhagdaliad.

Tlodi Tanwydd yng Nghymru

Siart 1: Y ganran o aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd yng Nghymru 2018⁸



Yn 2018:

- Roedd 155,000 o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd (12% o'r holl aelwydydd), roedd 84% o'r aelwydydd hyn yn aelwydydd sy'n agored i niwed.
- Roedd 32,000 o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol⁹ (2% o'r holl aelwydydd), roedd 59% o'r aelwydydd hyn yn aelwydydd sy'n agored i niwed.

Mae'r ystadegau tlodi tanwydd yn 2008 ac yn 2018 yn defnyddio'r un fethodoleg a'r un diffiniadau ar gyfer trefn wresogi ddigonol ac aelwydydd sy'n agored i niwed, felly gellir eu cymharu'n gyffredinol. Mae canran yr aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd wedi lleihau o 26% yn 2008. Dengys rhagolygon cychwynnol bod hyn wedi digwydd o ganlyniad i incymau aelwydydd yn cynyddu a gofynion ynni aelwydydd yn gostwng oherwydd bod y gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni yn fwy na'r cynnydd mewn prisiau tanwydd.

Yn 2016, roedd yr amcangyfrifon tlodi tanwydd¹⁰ yn darogan y byddai 23% o aelwydydd mewn tlodi tanwydd. Wedi dweud hynny, defnyddiwyd diffiniadau gwahanol ar gyfer y drefn wresogi ddigonol ac aelwydydd sy'n agored i niwed, felly nid oes modd eu cymharu.

Bydd trafodaeth bellach ar y ffactorau sy'n cael effaith ar lefelau tlodi tanwydd a'r newyddion diweddaraf am amcangyfrifon blaenorol yn sgil y newidiadau i fethodoleg y Weithdrefn Asesu Safonol yn dod yn yr adroddiad a gyhoeddir yn yr haf.

⁸Mae'r ffigurau wedi eu talgrynnu i'r ganran llawn agosaf.

⁹Mae maint y sampl ar gyfer tlodi tanwydd difrifol yn fach ac nid ystyrir bod yr amcangyfrifon hyn mor gadarn a'r amcangyfrifon ar gyfer tlodi tanwydd.

¹⁰[Cynhyrchu amcangyfrifon o lefelau tlodi tanwydd yng Nghymru](#)

Y Camau Nesaf

Mae disgwyl dadansoddiad manwl o'r amcangyfrifon tlodi tanwydd yn yr haf. Bwriedir:

- Cymharu â gwledydd eraill yn y Deyrnas Unedig,
- trafod newidiadau dros gyfnod o amser, a
- cael trafodaeth fanylach ar y ffactorau sy'n cael effaith ar dlodi tanwydd - incwm, prisiau tanwydd ac effeithlonrwydd ynni, a sut y mae'r rhain wedi newid ers cynhyrchu'r amcangyfrifon blaenorol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ymgynghori ar gynllun newydd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn yr hydref 2019, gyda'r bwriad o gyhoeddi fersiwn derfynol o'r cynllun diwygiedig yn 2020.

Gwybodaeth allweddol am ansawdd

Mae'r adran hon yn crynhoi gwybodaeth am ansawdd Arolwg Cyflwr Tai Cymru ac Arolwg Cenedlaethol Cymru. Nodwch fod **Adroddiad Ansawdd** manwl ar ystadegau'r ACTC wedi'i gyhoeddi ar [wefan ACTC](#). Mae'r adroddiad hwnnw'n mesur ansawdd yn erbyn pum dimensiwn: Perthnasedd, Cywirdeb a Dibynadwyedd, Amseroldeb a Phrydlondeb, Hygyrchedd ac Eglurder, a Chymaroldeb a Chydlyniaeth. Mae Crynodeb o'r [Arolwg Cenedlaethol](#) ar gael, yn cynnwys gwybodaeth fanylach am ansawdd yr arolwg yn ogystal â chrynodeb o'r dulliau a ddefnyddiwyd i grynhoi'r canlyniadau.

Cefndir Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18

Cynhelir yr Arolwg Cenedlaethol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ran Llywodraeth Cymru. Ar gyfer Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18, dewiswyd 23,517 o gyfeiriadau ar hap o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post mân ddefnyddwyr y Post Brenhinol. Ymwelodd y cyfwelwyr â phob cyfeiriad a dewiswyd un oedolyn (16+ oed) ar hap yn y cartref. Yna, cynhaliwyd cyfweiliad 45 munud wyneb yn wyneb â'r oedolyn hwnnw, gan ofyn am ei farn am amrywiaeth eang o faterion, ymddygiadau a nodweddion. Llwyddwyd i gynnal 11,381 o gyfweiliadau a chafwyd cyfradd ymateb o 54.5%.

Mae'r canlyniadau sydd i'w gweld yn y bwletin hwn wedi'u seilio ar gyfweiliadau a gynhaliwyd rhwng 1 Gorffennaf 2017 a 31 Mawrth 2018. Os mai Person Cyswllt y Cartref oedd yr ymatebydd neu briod/partner yr ymatebydd, gofynnwyd cyfres o gwestiynau manwl ynghylch incwm a chostau rhedeg tŷ.

Ceir rhagor o wybodaeth am y dull a ddefnyddiwyd yn yr [Adroddiad technegol](#).

Cefndir Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

Roedd bwch amlwg yng ngwybodaeth Llywodraeth Cymru am gyflwr tai yng Nghymru. Yr ymarfer cynhwysfawr diwethaf i gasglu data ar gyflwr tai yng Nghymru cyn ACTC 2017-18 oedd yr Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru yn 2008. Ym mis Mehefin 2016, rhoddwyd caniatâd a chyllid ar gyfer y [Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai](#). Caiff y Rhaglen ei rheoli gan Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru, ac mae'n cynnwys dwy ffrwd waith:

- Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18; ac
- [Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru](#): Yn y bôn, cronfa data sy'n casglu amrywiaeth o ddata ar nodweddion, saernïaeth, cyflwr ac effeithlonrwydd ynni'r stoc dai yng Nghymru yw hwn. Lle y bo modd, bydd hynny ar lefel eiddo unigol.

Cynhaliwyd ACTC gan y [Sefydliad Ymchwil Adeiladu](#) ar ran Llywodraeth Cymru. Cafodd y gwaith maes ei gynnal rhwng Awst 2017 a mis Ebrill 2018. Cynhaliwyd archwiliadau o eiddo gan syrfëwyr cymwysedig, a gynhaliodd asesiad gweledol o'r tu mewn a'r tu allan i'r eiddo. Roedd yr archwiliadau wedi para tua 40-50 munud, a threuliwyd tua 20 munud y tu mewn yn cynnal archwiliad fesul ystafell. Roedd y syrfëwr hefyd wedi archwilio llain yr eiddo ac wedi gwneud asesiad o'r gymdogaeth leol. I weld manylion llawn y pynciau a gafodd eu cynnwys yn yr Arolwg, gwelwch Ffurflen yr Arolwg, sydd ar gael ar [wefan Arolwg Cyflwr Tai Cymru](#).

Tynnwyd sampl o gyfeiriadau o blith aelwydydd cymwys a oedd yn cymryd rhan yn [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) 2017-18. Cyflawnwyd cyfanswm o 2,549 o arolygon llawn ACTC ar draws y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, sy'n galluogi amcangyfrifon ar lefel genedlaethol. Roedd cyfwelwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru wedi cyflawni cyfradd gydsynio o 58%, ac o'r rheini llwyddodd syrfewyr y Sefydliad Ymchwil Adeiladu i gael cyfradd drosi dros o 78%. Y gyfradd ymateb gyffredinol oedd 45%.

Ceir gwybodaeth fanwl am y fethodoleg a ddefnyddir yn ACTC yn adroddiad technoleg yr arolwg, sydd ar gael ar [wefan ACTC](#).

Sut y defnyddir Amcangyfrifon Tlodi Tanwydd?

Defnyddir Amcangyfrifon Tlodi Tanwydd gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau eraill er mwyn helpu i dargedu adnoddau i wella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi drwy Gymru. Mae [Strategaeth Tlodi Tanwydd 2010](#) Llywodraeth Cymru yn nodi'r camau sydd wedi'u cymryd i leihau tlodi tanwydd yng Nghymru a bydd yr amcangyfrifon diweddaraf yn llywio'r cynllun newydd i dargedu tlodi tanwydd.

Pwy sy'n defnyddio amcangyfrifon Tlodi Tanwydd?

Caiff amcangyfrifon tlodi tanwydd eu defnyddio at ddibenion llunio polisiâu gan Lywodraeth Cymru, yn bennaf ym maes tai a'r amgylchedd, ond hefyd ar gyfer anghenion polisi cymdeithasol. Mae ystod eang o ddefnyddwyr eraill hefyd, gan gynnwys: Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru; awdurdodau lleol ledled Cymru; Iechyd Cyhoeddus Cymru; Sefydliadau yn y Trydydd Sector; cymdeithasau tai, elusennau; adrannau eraill llywodraeth y DU a sefydliadau llywodraeth leol; sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus; academyddion; cwmnïau preifat; y cyfryngau; a'r cyhoedd.

Cryfderau a Chyfyngiadau

Bydd gwybodaeth fanylach ar gryfderau a chyfyngiadau Amcangyfrifon Tlodi Tanwydd yn cael ei darparu yn yr adroddiad methodoleg a gyhoeddir yn yr haf.

Cydlyniaeth

Er bod pob cenedl yn y Deyrnas Unedig yn cynhyrchu amcangyfrifon o ran tlodi tanwydd, dylid nodi bod pob cenedl yn y DU yn defnyddio'i diffiniad ei hun o dlodi tanwydd. O'r herwydd, nid oes modd cymharu ystadegau tlodi tanwydd ar draws y cenhedloedd. Bydd dadansoddiad pellach o'r amcangyfrifon tlodi tanwydd hyn yn cael ei gyhoeddi yn yr haf, a bydd hwnnw yn edrych ar le a phryd y gellir cymharu.

Dolenni cyswllt i Ystadegau eraill ar Dlodi Tanwydd yn y Deyrnas Unedig

[Ystadegau Tlodi Tanwydd Lloegr](#)

[Ystadegau Tlodi Tanwydd yr Alban](#)

[Ystadegau Tlodi Tanwydd Gogledd Iwerddon](#)

Newidiadau i fethodoleg y Weithdrefn Asesu Safonol ar gyfer mesur perfformiad effeithlonrwydd ynni

Y Weithdrefn Asesu Safonol yw'r fethodoleg a gaiff ei defnyddio gan y Llywodraeth i asesu a chymharu perfformiad amgylcheddol ac ynni mewn anheddau.

Mae'r Weithdrefn Asesu Safonol yn gweithio drwy asesu faint o ynni y bydd annedd yn ei ddefnyddio wrth ddarparu lefel benodol o gysur a gwasanaethau. Mae'r asesiad yn seiliedig ar ragdybiaethau safonedig mewn perthynas â meddiannaeth ac ymddygiad. Mae hynny'n sicrhau bod perfformiad annedd yn cael ei gymharu ag annedd tebyg. Mae'r sgorau ar raddfa rhwng 1 a 100, lle bo 100 yn cynrychioli dim costau ynni. Mae methodoleg y Weithdrefn Asesu Safonol wedi cael ei diweddarau ddwywaith ers i fersiwn 2005 gael ei defnyddio ar gyfer modelu Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2008, yn gyntaf Gweithdrefn Asesu Safonol 2009 ac yna Gweithdrefn Asesu Safonol 2012. Yn ychwanegol cafodd y fethodoleg ar gyfer lleihau data Gweithdrefn Asesu Safonol ar gyfer Gweithdrefn Asesu Safonol 2012 ei diweddarau ym mis Tachwedd 2017.

Statws Ystadegau Gwladol

Mae [Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig](#) wedi dynodi ystadegau o Arolwg Cyflwr Tai Cymru ag Arolwg Cenedlaethol Cymru yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy'n dangos cydymffurfiaeth â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#). Gallwch weld adroddiadau'r asesiad ar dudalennau gwe y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegol:

[Ystadegau o Arolwg Cyflwr Tai Cymru](#)

[Ystadegau o Arolwg Cenedlaethol Cymru](#)

Golyga statws Ystadegau Gwladol fod yr ystadegau swyddogol yn bodloni'r safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os byddwn yn pryderu ynghylch a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod y pryderon hynny â'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir adennill y statws pan fo'r safonau'n cael eu hadfer.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn gosod saith nod llesiant i Gymru. Mae'r rhain er mwyn sicrhau Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel byd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran 10(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion

cededlaethol") y gellir eu defnyddio ar gyfer mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Gosodwyd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol ym mis Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn [adroddiad Llesiant Cymru](#).

Gellir cael rhagor o wybodaeth am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrrdau gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

Manylion pellach

Mae'r ddogfen ar gael yn: <https://llyw.cymru/amcangyfrifon-tlodi-tanwydd-ar-gyfer-cymru-2018>

Y Diweddariad Nesaf

Cyhoeddir dadansoddiad manwl o dlodi tanwydd yn ystod haf 2019.

Hoffem gael adborth gennych

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn, a gellir gwneud hynny drwy anfon neges e-bost i ystadegau.cyflwrtai@llyw.cymru

Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan [Drwydded Llywodraeth Agored f3.0](#), oni nodir yn wahanol.

